Yr anifeiliaid caredig

Caredigrwydd / Gosod Esiampl

Drwy'r nos bu'n bwrw eira. Erbyn y bore roedd yr eira'n drwchus iawn. Edrychodd y gwningen lwyd ar yr eira oedd yn gorchuddio pob twll a chornel.

"Rydw i bron a llwgu eisiau bwyd," meddai a rhedodd drwy'r eira i chwilio am rywbeth i'w fwyta. Yng ngwaelod y cae gwelodd ddwy foronen fawr. Cododd y ddwy foronen yn ei phawennau a rhedeg drwy'r eira yn ôl i'w thwll o dan y goeden dderw. Bu wrthi'n bwyta a bwyta. Ar ôl iddi orffen y gyntaf roedd ei stumog yn llawn. Penderfynodd fynd â'r foronen arall i'r mul bach oedd yn byw i lawr y ffordd. I ffwrdd â hi drwy'r eira. Ond doedd y mul bach ddim adref. Gadawodd y foronen yn ei bowlen fwyd.

Roedd y mul bach yn chwilio am fwyd. Gwelodd ddwy dysen wrth ymyl y clawdd yng ngwaelod y cae. Pan ddaeth adref dechreuodd fwyta'r ddwy dysen. Ond pwy oedd wedi gadael y foronen yn ei bowlen fwyd? "Dydw i ddim eisiau mwy o fwyd," meddai "mae fy stumog yn llawn. Mi wn i beth i'w wneud. Mi af â'r foronen i'r ddafad sy'n byw yn y cae drws nesaf."

Roedd y ddafad yn chwilio am fwyd. Gwelodd fresych gwyrdd wrth ymyl y sied. Cariodd y bresych adref a dechrau arni i fwyta a bwyta. Yn sydyn, gwelodd fod rhywun wedi gadael moronen wrth ymyl y giât. "Gan fy mod wedi bwyta digon o fwyd, mi af â'r foronen i'r wiwer sy'n byw yn y goeden dderw." I ffwrdd a hi drwy'r eira trwchus at waelod y goeden dderw.

Roedd y wiwer yn chwilio am fwyd hefyd. A dweud y gwir roedd pob anifail yn yr ardal yn chwilio am fwyd yn y tywydd oer. Roedd y wiwer hithau'n llwglyd. Aeth i chwilio am y cnau oedd hi wedi eu cuddio yn ystod yr hydref. Ysgydwodd ei chynffon yn hapus. Roedd digonedd o gnau wedi'u claddu dan yr eira. Aeth a llond ei phawennau yn ôl i'r goeden dderw. Ond pan gyrhaeddodd y goeden dderw roedd moronen fawr yng ngheg ei nyth yn y goeden. "Pwy sydd wedi rhoi'r foronen

yn y fan yma?" meddyliodd. "Wel dydw i ddim eisiau bwyd gan fy mod wedi cael llond fy mol o gnau. Mi wn i beth wnai," meddai wrthi'i hun, "mi af i weld y gwningen sy'n byw yn y twll yng ngwaelod y cae. Efallai y bydd hi'n falch o gael pryd o fwyd."
I ffwrdd â'r wiwer gan sboncio dros yr eira gwyn oedd yn gorchuddio'r caeau i gyd. Rhoddodd y foronen wrth geg y twll a ffwrdd â hi yn ôl adref.
Pan ddeffrôdd y wningen y bore canlynol roedd hi bron â marw eisiau bwyd. "Biti na fuaswn i wedi cadw'r foronen yna yn hytrach

na'i rhoi hi i'r mul bach," meddai. "Bydd rhaid i mi fynd i chwilio am fwyd unwaith eto."
Pan ddaeth allan beth oedd yna ond moronen fawr flasus. "Os gwn i sut y daeth y foronen i'r fan hyn? Dechreuodd fwyta a bwyta ac aeth yn ôl i'w thwll a bu'n cysgu am weddill y dydd.

Diolch i ti O Dduw am bobl garedig
Pobl sy'n barod i roi a rhoi.
Helpa fi i fod yn garedig wrth bawb. Amen.

✦ Pam oedd y wningen yn garedig? Oedd yr anifeiliaid eraill yn garedig?
✦ Fedrwch chi feddwl am bethau caredig fyddwch chi'n eu gwneud?